



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2016 Rhif 87 (Cy. 41)**

**2016 No. 87 (W. 41)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

**Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal  
Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016**

**The Child Minding and Day Care  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2016**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

Mae rheoliad 4 yn dileu'r gofyniad i dystysgrif gofrestru gynnwys enw'r person â chyfrifoldeb, pan fo un wedi ei benodi.

Mae rheoliad 8 yn dileu gofynion sy'n ymwneud â darpariaeth chwarae mynediad agored.

Mae rheoliadau 5 a 9 i 12 yn diwygio o ganlyniad i Reoliad Gorchymyn Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 (sy'n estyn gofyniad y rheoliad i bobl sydd wedi cofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i ofalu am blant neu ddarparu gofal i blant o dan ddeuddeng mlwydd oed). Mae diwygiadau hefyd yn cael eu gwneud i ddileu'r gofyniad i geisydd gyflwyno cais i Weinidogion Cymru am dystysgrif cofnod troseddol fanylach ac i Weinidogion Cymru gydlofnodi'r cais hwnnw.

Mae rheoliad 9 a 10 hefyd yn ailddatgan paragraff 13(1) a 37(1) o Atodlen 1 gyda newidiadau er mwyn ei gwneud yn glir pa bersonau sydd rhaid iddynt fod yn addas o ran uniondeb a chymeriad da i fod mewn cysylltiad â phlant.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010.

Regulation 4 removes the requirement for a certificate of registration to contain the name of the person in charge where one has been appointed.

Regulation 8 removes requirements relating to open access play provision.

Regulations 5 and 9 to 12 make amendments in consequence of the Regulation of Child Minding and Day Care (Wales) Order 2016 (which extends the regulation requirement for persons registered under Part 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 to look after or provide care for children under the age of twelve). Amendments are also made to remove the requirement on applicants to provide the Welsh Ministers with an application for an enhanced criminal record certificate and for the Welsh Ministers to countersign that application.

Regulations 9 and 10 also restate with modification paragraph 13(1) and 37(1) of Schedule 1 to make it clear which persons must be of suitable integrity and good character to have contact with children.

These Regulations come into force on 1 April 2016.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2016 Rhif 87 (Cy. 41)**

**2016 No. 87 (W. 41)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

**Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal  
Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016**

**The Child Minding and Day Care  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2016**

*Gwnaed* 27 Ionawr 2016

*Made* 27 January 2016

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 29 Ionawr 2016

*Laid before the National Assembly for Wales*  
29 January 2016

*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2016

*Coming into force* 1 April 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 24(2) a (3), 25, 26(2) a (3), 27, 28(3), 30, a 74(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon them by sections 24(2) and (3), 25, 26(2) and (3), 27, 28(3), 30, and 74(2) of the Children and Families (Wales) Measure 2010(1).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Child Minding and Day Care (Wales) (Amendment) Regulations 2016.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2016.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

**Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru)  
2010**

**2.** Mae Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(2) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 12.

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

**Child Minding and Day Care (Wales) Regulations  
2010**

**2.** The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010(2) are amended in accordance with regulations 3 to 12.

**3.** In regulation 2 (interpretation), in the appropriate place in the alphabetical order insert—

---

(1) 2010 mccc 1.  
(2) O.S. 2010/2574 (Cy. 214).

---

(1) 2010 nawm 1.  
(2) S.I. 2010/2574 (W. 214).

“mae i “mangre” (“*premises*”) yr ystyr a roddir yn adran 71 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;”.

4. Yn rheoliad 5 (tystysgrif gofrestru), hepgorer is-baragraff (ch).

5. Yn rheoliad 6 (y person cofrestredig: ei addasrwydd), ym mharagraff (1), yn lle “o dan wyth oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”.

6. Yn rheoliad 20 (diogelu a hyrwyddo lles)—

- (a) ym mharagraff (2) yn lle “yn addas i gael cyswllt o’r fath” rhodder “yn addas i gael cyswllt â phlant”; a
- (b) ym mharagraff (4), ar ddechrau is-baragraff (a) mewnosoder “pan fo’n briodol.”.

7. Yn rheoliad 28 (addasrwydd gweithwyr), ym mharagraff (6)(c), yn lle “y person” yn yr ail le y mae’n ymddangos rhodder “ef”.

8. Yn rheoliad 37 (addasrwydd y fangre)—

- (a) ym mharagraff (2) yn lle “Rhaid i’r person cofrestredig” rhodder “Yn ddarostyngedig i baragraff (6), rhaid i’r person cofrestredig”;
- (b) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(6) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i berson cofrestredig sy’n darparu gofal dydd drwy ddarpariaeth chwarae mynediad agored.”.

9. Yn Atodlen 1, Rhan 1 (y gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru: gwarchod plant)—

- (a) ym mharagraffau 2, 4, a 5 (gofynion mewn perthynas â’r ceisydd), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”;
- (b) yn lle paragraff 6 rhodder—

“6. Bod y ceisydd wedi darparu i Weinidogion Cymru dystysgrif cofnod troseddol fanylach.”;

- (c) ym mharagraffau 8, 9, a 10 (gofynion mewn perthynas â phersonau eraill: staff), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”; a
- (d) yn lle paragraff 13(1) (gofynion mewn perthynas â phersonau eraill: pob person arall), rhodder—

“13.—(1) Bod pob person (ac eithrio’r ceisydd neu berson a grybwyllir ym mharagraff 8) sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed ac—

- (a) yn byw yn y fangre berthnasol,
- (b) yn gweithio yn y fangre berthnasol, neu

““premises” (“*mangre*”) has the meaning in section 71 of the Children and Families (Wales) Measure 2010;”.

4. In regulation 5 (certificate of registration), omit sub-paragraph (d).

5. In regulation 6 (registered person: suitability), in paragraph (1), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”.

6. In regulation 20 (safeguarding and promotion of welfare)—

- (a) in paragraph (2) for “is suitable to have such contact” substitute “is suitable to have contact with children”; and
- (b) in paragraph (4), at the beginning of sub-paragraph (a) insert “where appropriate.”.

7. In regulation 28 (suitability of workers), in paragraph (6)(c), for “that person her” substitute “he”.

8. In regulation 37 (fitness of premises)—

- (a) in paragraph (2) for “The registered person must” substitute “Subject to paragraph (6), the registered person must”;
- (b) after paragraph (5) insert—

“(6) Paragraph (2) does not apply to a registered person who provides day care by means of open access play provision.”.

9. In Schedule 1, Part 1 (prescribed requirements for registration: child minder)—

- (a) in paragraphs 2, 4, and 5 (requirements relating to the applicant), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”;
- (b) for paragraph 6 substitute—

“6. The applicant has provided to the Welsh Ministers an enhanced criminal record certificate.”;

- (c) in paragraphs 8, 9, and 10 (requirements relating to other persons: staff), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”; and
- (d) for paragraph 13(1) (requirements relating to other persons: all other persons), substitute—

“13.—(1) Every person (other than the applicant or a person mentioned in paragraph 8) who has attained the age of 16 and who—

- (a) lives on the relevant premises,
- (b) works on the relevant premises, or

- (c) yn bresennol rywfodd arall yn y fangre berthnasol ac yn dod, neu'n debygol o ddod, i gysylltiad yn rheolaidd â phlant perthnasol,

yn addas o ran uniondeb a chymeriad da i gael cyswllt â phlant.”.

**10.** Yn Atodlen 1, Rhan 2 (y gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru: darparwyr gofal dydd)—

- (a) ym mharagraffau 15, 17 a 18 (gofynion mewn perthynas â'r ceisydd: unigolyn), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”;

- (b) yn lle paragraff 19 rhodder—

“**19.** Bod y ceisydd wedi darparu i Weinidogion Cymru dystysgrif cofnod troseddol fanylach.”;

- (c) ym mharagraffau 21(a), 21(b), 22 a 23 (gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol pan fo'r ceisydd yn sefydliad), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”;

- (d) yn lle paragraff 24 rhodder—

“**24.** Bod y ceisydd wedi darparu i Weinidogion Cymru dystysgrif cofnod troseddol fanylach mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol.”;

- (e) ym mharagraffau 27, 28 a 29 (gofynion mewn perthynas â'r person â chyfrifoldeb), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”;

- (f) yn lle paragraff 30 rhodder—

“**30.** Bod y ceisydd wedi darparu i Weinidogion Cymru dystysgrif cofnod troseddol fanylach mewn perthynas â'r person â chyfrifoldeb.”;

- (g) ym mharagraffau 32, 33 a 34 yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”; ac

- (h) yn lle paragraff 37(1) (gofynion mewn perthynas â phersonau eraill: pob person arall), rhodder—

“**37.—(1)** Bod pob person (ac eithrio'r ceisydd neu berson a grybwyllir ym mharagraff 21, 26 neu 32) sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed ac—

- (a) yn byw yn y fangre berthnasol,  
(b) yn gweithio yn y fangre berthnasol, neu  
(c) yn bresennol rywfodd arall yn y fangre berthnasol ac yn dod, neu'n debygol o ddod, i gysylltiad yn rheolaidd â phlant perthnasol,

- (c) is otherwise present on the relevant premises and has, or is likely to have, regular contact with relevant children,

is of suitable integrity and good character to have contact with children.”.

**10.** In Schedule 1, Part 2 (prescribed requirements for registration: providers of day care)—

- (a) in paragraphs 15, 17 and 18 (requirements relating to the applicant: an individual), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”;

- (b) for paragraph 19 substitute—

“**19.** The applicant has provided to the Welsh Ministers an enhanced criminal record certificate.”;

- (c) in paragraphs 21(a), 21(b), 22 and 23 (requirements relating to the responsible individual where the applicant is an organisation), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”;

- (d) for paragraph 24 substitute—

“**24.** The applicant has provided to the Welsh Ministers an enhanced criminal record certificate in respect of the responsible individual.”.

- (e) in paragraphs 27, 28 and 29 (requirements relating to the person in charge), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”;

- (f) for paragraph 30 substitute—

“**30.** The applicant has provided to the Welsh Ministers an enhanced criminal record certificate in respect of the person in charge.”;

- (g) in paragraphs 32, 33 and 34 for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”; and

- (h) for paragraph 37(1) (requirements relating to other persons: all other persons), substitute—

“**37.—(1)** Every person (other than the applicant or a person mentioned in paragraph 21, 26 or 32) who has attained the age of 16 and who—

- (a) lives on the relevant premises,  
(b) works on the relevant premises, or  
(c) is otherwise present on the relevant premises and has, or is likely to have, regular contact with relevant children,

yn addas o ran uniondeb a chymeriad da i gael cyswllt â phlant.”.

**11.** Yn Atodlen 2, Rhan 1 (gwybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru: gwarchodwr plant)—

- (a) ym mharagraffau 2(3) a 5(b) (gwybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru: gwarchodwr plant), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”;
- (b) ym mharagraff 11(e)(iii) (gwybodaeth am bersonau eraill: staff), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”; ac
- (c) ym mharagraffau 17 a 20(1) (y dogfennau sydd i'w cyflenwi), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”.

**12.** Yn Atodlen 2, Rhan 2 (gwybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru: darparydd gofal dydd)—

- (a) ym mharagraffau 22(3) a 22(5)(ch)(ii) (gwybodaeth am y ceisydd: unigolyn), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”;
- (b) ym mharagraffau 24(3)(a), 24(3)(b) a 24(4)(ch)(ii) (gwybodaeth am yr unigolyn cyfrifol pan fo'r ceisydd yn sefydliad), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”;
- (c) ym mharagraffau 25(3) a 25(4)(ch)(ii) (gwybodaeth am y person â chyfrifoldeb), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”;
- (d) ym mharagraff 34(e)(iii) (gwybodaeth am bersonau eraill: staff), yn lle “o dan wyth mlwydd oed” rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”; ac
- (e) ym mharagraffau 40 a 46(1) (y dogfennau sydd i'w cyflenwi), yn lle “o dan wyth mlwydd oed”, ym mhob lle y mae'r geiriau'n digwydd, rhodder “o dan ddeuddeng mlwydd oed”.

is of suitable integrity and good character to have contact with children.”.

**11.** In Schedule 2, Part 1 (information and documentation required for registration: child minder)—

- (a) in paragraphs 2(3) and 5(b) (information and documentation required for registration: child minder), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”;
- (b) in paragraph 11(g)(iii) (information about other persons: staff), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”; and
- (c) in paragraph 17 and 20(1) (documents to be supplied), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”.

**12.** In Schedule 2, Part 2 (information and documentation required for registration: provider of day care)—

- (a) in paragraphs 22(3) and 22(5)(d)(ii) (information about the applicant: an individual), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”;
- (b) in paragraphs 24(3)(a), 24(3)(b) and 24(4)(d)(ii) (information about the responsible individual where the applicant is an organisation), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”;
- (c) in paragraphs 25(3) and 25(4)(d)(ii) (information about the person in charge), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”;
- (d) in paragraph 34(g)(iii) (information about other persons: staff), for “under the age of eight” substitute “under the age of twelve”; and
- (e) in paragraphs 40 and 46 (1) (documents to be supplied), for “under the age of eight” in each place where the words occur substitute “under the age of twelve”.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

27 Ionawr 2016

©Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Communities and Tackling Poverty, one of the Welsh Ministers

27 January 2016

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.





---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2016 Rhif 87 (Cy. 41)**

**2016 No. 87 (W. 41)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES**

Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal  
Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016

The Child Minding and Day Care  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2016

£4.25

W2549/02/16

ON

ISBN 978-0-348-11241-2



9 780348 112412